# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 11.07.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths, Huw Davies.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13.06.18 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Geraint Edwards **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (13.06.18):**
   a) **Tŷ Nant - Llwyngwril -** Gyngor Gwynedd wedi anfon ffurflen i gael ei chwblhau gan y Cyngor Cymuned, er mwyn gallu ymchwilio'r cwyn a gafodd ei gyflwyno iddynt ynglŷn â'r mynediad newydd ar y safle.
   Gan fod y cwyn yma wedi dod i sylw'r Cyngor Cymuned gan drigolion y pentref, bydd rhaid llenwi ffurflen Cyngor Gwynedd i'w galluogi i ymchwilio'r sefyllfa.
   **Penderfyniad** ➞ cwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd i Gyngor Gwynedd.

   ❖ ***David Griffiths wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen briodol. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.***

5. **Gohebiaeth:**
   a) **ROSPA** – Adroddiad wedi ei dderbyn ar archwiliad blynyddol y Cae Chwarae yn Llwyngwril - 27.06.18.
   b) **Rheolau Sefydlog y Cyngor** - gwybodaeth gan Un Llais fod angen diweddaru Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a ddigwyddodd er 2013.
   c) **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** ➞ gwybodaeth ynglŷn â'r newidiadau wedi eu rhoi i'r aelodau er mwyn gallu trafod ymhellach a gwneud penderfyniad yn y cyfarfod nesaf.
   d) **Cyngor Gwynedd** - llythyr wedi ei dderbyn ynglŷn â sefyllfa a chyflwr ffordd Tydfarch/Cefn Meusydd, Llwyngwril.
   e) **Parc Cenedlaethol Eryri -** gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn ag ymgynghoriad Cychwynnol Cynllun Eryri 09/07/18 – 30/09/18.
   f) **Parc Cenedlaethol Eryri -** gwybodaeth ynglŷn â chyfarfodydd blynyddol gyda chynghorau cymuned yn yr ardal ➞ atgoffa'r aelodau yn y cyfarfod nesaf.
   g) **Turnock Ltd -** hysbysiad wedi ei dderbyn fod ganddynt 3 set o oleuadau (T9056C 24v) i'r Coed Nadolig mewn stoc ➞ trafod yn y cyfarfod nesaf ar ôl cadarnhau mai 3 llinyn ar wahân sydd ganddynt ar werth.

6. **Materion Cynllunio**:

   a) **NP5/69/400 –** Noddfa, Llwyngwril – Gosod ffenestri dormer tô brig yn lle'r ffenestri dormer tô fflat
   **Penderfyniad** ➡ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

   - ***Keith Carroll wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ond ni chymerodd ran yn y penderfyniad.***

   b) **NP5/69/50H -** Rola, Llwyngwril - Adeiladu estyniad un llawr ar yr ochr, ports ac adeiladu balcony ar y llawr cyntaf
   **Penderfyniad** ➡ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Mehefin 2018 yn gywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Malcolm Hills **Arwyddwyd** – Ian Williams.

   **a)** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
   **b)** Siec wedi ei dderbyn gan Scottish Power = £17.08
   **c)** Siec i Signcreation am arwydd i'r Cae Chwarae = £22.50
   **d)** Siec i Playsafety Ltd am archwiliad y Cae Chwarae = £92.40.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Louise Hughes ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
   **a)** Arwydd newydd i'r Cae Chwarae wedi ei dderbyn. Geraint Edwards i drefnu dyddiad i roi yr arwydd i fyny.
   **b)** Meinciau yn Llwyngwril angen eu paentio ➡ Keith Carroll a Malcolm Hills yn cynnig symud yr addurniadau gweu dros dro, er mwyn gallu gorffen y gwaith paentio!
   **c)** Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned, ochr allan Y Ganolfan - cwyn wedi ei dderbyn fod hi'n anodd darllen yr hysbysebion sydd arddangos oherwydd cyflwr y ffenestr bersbecs ar yr hysbysfwrdd
   **Penderfyniad** ➡ cael pris am ffenestr bersbecs newydd i'r hysbysfwrdd.
   **d)** Ffordd Celynnin - cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned fod scrap yn cael ei storio mewn lori wedi parcio ar y ffordd ochr allan i'r tai.
   **Penderfyniad** ➡ pawb yn cytuno nad yw hyn yn le delfrydol i gadw scrap, felly cadw llygad ar y sefyllfa, rhag ofn fydd y broblem yn gwaethygu.
   **e)** Gatiau croesfanau Network Rail - sylwadau wedi eu derbyn fod y glicied sy'n agor a chau gatiau'r croesfannau yn Llwyngwril wedi cael eu newid, a bod dim clicied yn dal y giât yn dyn ar gau fel maen nhw'n sefyll rŵan.
   ?? pwy sydd wedi eu newid ag am ba reswm ??
   **Penderfyniad** ➡ cysylltu â Network Rail i'w gwneud yn ymwybodol o hyn, a gofyn a oes modd rhoi cliciedau newydd, sydd yn haws i'w hagor ar y gatiau yma (rhai gyda handlen sydd yn ymestyn i fyny - sydd yn haws i'w hagor pan yn mynd a plant mewn pram, neu i rywun mewn cadair olwyn) ?

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 12.09.18 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**